

Sgript Sion Acciaioli Byd Bach Mawrth 25ain

Byd Bach, Mawrth y pumed ar hugain. Dyma Siôn Acciaioli gyda chrynodeb o newyddion diweddaraf o Sbaen. Daw'r newyddion yma o'r papurau newyddion El País, 20 minutos, el huffingtonpost.es ag el mundo.

Eleni yw degfed pen-blwydd yr ymosodiadau terfysgol ym Madrid sydd nawr yn cael eu galw yn yr 11 - M (once M). Yn yr ymosodiadau yma bu farw 191 o bobl ac fe anafwyd 1,800 mewn un o'r ymosodiadau terfysgol gwaethaf yn hanes Ewrop. Ar yr 11eg o Fawrth 2004, gosodwyd grŵp o derfysgwyr Islamaidd bomiau ar drenau cymudo ym Madrid. Ffrwydrodd pedwar o'r trenau hyn ar eu ffordd i mewn i'r ddinas. Y digwyddiad yma oedd yr ymosodiad terfysgol Islamaidd mwyaf difrifol yn hanes y cyfandir Ewropeaidd. Cynhaliwyd offeren goffaol dros ddiodefwyr y trychineb yn Eglwys Gadeiriol Almudena ym Madrid. Mynychodd Brenin y Wlad, Juan Carlos, a'i wraig Y Frenhines Sofía yr offeren ble wnaethant gwrdd ag arweinyddion Cymdeithasau'r diodefwyr. Roedd y ddinas i gyd yn galaru a chynhaliwyd seremonïau coffaol ar draws Madrid. Rhyddhawyd 191 o falwnau gwynion er cof am y bobol a bu farw a dwedodd Arlywydd Sbaen, Mariano Rajoy 'Cydgefnogaf y teuluoedd ac mae diodefwyr yr ymosodiad gwaethaf ar ein gwlad yn fy meddwl o hyd. Mae Sbaen gyda chi.'

Mae'r hanes nesaf yn aros ym Madrid gyda gorymdeithiau'r 22-M. Ar yr ail ar hugain o Fawrth cynhaliwyd yr orymdaith, sydd yn cael ei alw'n Gorymdeithiau Urddas, yng nghanol dinas Madrid. Cynhelir y gorymdeithiau yma dros derfyn ar y toriadau sydd wedi effeithio llawer o Sbaenwyr ac am ymddiswyddiad y llywodraeth cyfoedol. Yn ôl trefnyddion y brotest, cymerodd mwy na dwy filiwn a hanner o bobol rhan yn yr orymdaith yn bloeddio'r arwyddair 'bara, gwaith a tho i bob dyn a phob menyw'. Yn anffodus, roedd tensiwn y sefyllfa yn ormod i rai o'r gorymdeithwyr a chaethiwyd o leiaf 17 person o dan y cyhuddiad o 'ddifriô a gwrthwynebiad i awdurdod' ac anafwyd tua 70 o bobol yn y brotest, 7 o rheiny yn heddweision gydag un heddwes mewn sefyllfa ddifrifol yn ysbyty Nuestra Señora de la América.

Sgript Sion Acciaioli Byd Bach Mawrth 25ain

Nawr rydym yn neidio i Ogledd Affrica ac i hanes sydd yn sôn am y berthynas dynn rhwng Sbaen a Moroco. Mae'r hanes yma yn seiliedig ar ddinas Melilla ar y cyfandir Affricanaidd. Mae Melilla, un o olion ymerodraethol Sbaen, yn un o ddwy ddinas ymreolaethol Sbaeneg sydd yn ffinio gyda Moroco ar y cyfandir Affricanaidd. Yr wythnos yma bu rhaid i'r llywodraeth cau'r ffin rhwng Melilla a'r ddinas Beni Eznar ym Moroco am ddwy awr oherwydd y bygythiad o naid enfawr mewn niferoedd o fewnfudwyr i'r allbost Sbaeneg. Nid oes unrhyw ffigurau swyddogol ynglŷn â sawl mewnfudwr a cheisiodd mynd mewn i Felilla ond yn ôl yr un ffynhonnell mae'n debyg roedd ambell Syriaid a phobol o wledydd is-saharaidd ymhlith y dorf. Melilla yw'r pwynt pwysicaf ar y ffin rhwng Sbaen a Moroco. Nid hwn yw'r tro cyntaf i'r ffin ryngwladol rhwng y ddwy wlad cael ei chau. Mae dros 1,500 o ffoaduriaid Syriaidd yn y ddinas Morocaidd agosach i Melilla, Nador ac ar y deunawfed o Fawrth ceisiwyd dros 500 o fewnfudwyr dringo'r weiren ellyn rhwng y ddwy wlad.

Yn ôl i dir mawr Sbaen, ac mae'r refferendwm am annibyniaeth yng Nghatalwnia yn agosáu. Yr wythnos yma cynhaliodd yr CEO (Canolfan Astudiaethau Barn) holiadur yng Nghatalwnia ynglŷn ag os oedd y Catalaniaid o blaid neu yn erbyn i Gatalwnia fod yn wladwriaeth newydd yn Ewrop. Yn ôl y rheiny a gofynnwyd, roedd 59.6% o blaid a dim ond 29.7% yn erbyn. Mae'r newyddion yma yn dod dim ond rhai misoedd cyn i'r wlad cynnal y refferendwm ond yn anffodus i'r Catalaniaid sydd o blaid annibyniaeth, mae'r llywodraeth ym Madrid yn gwrthod caniatáu'r Generalitat, llywodraeth Catalwnia, i gynnal y refferendwm yma. Gyda nifer yng Nghatalwnia yn dweud bod Senedd Sbaen yn ofni byddai Catalwnia, un o ranbarthau cyfoethocaf y wlad, yn penderfynu gwahanu o'r wladwriaeth Sbaenaidd i fod yn wlad annibynnol. Daw'r newyddion hyn ar yr un pryd a newyddion am y bleidlais o blaid annibyniaeth yn ardal Veneto, yn yr Eidal ond un mae'r llywodraeth yn Rhufain yn gwrthod derbyn. A hefyd, ychydig o fisoedd cyn i'r Alban cynnal y refferendwm am ei dyfodol hi. A'r sefyllfa fregus yn y Crimrea.

Mae Sbaen yn wlad sydd wedi arfer â thensiwn mewnol ond mae'n debyg daw eto haul ar fryn i'r wlad gyda'r newyddion y mis diwethaf fod ETA, y grŵp terfysgol a oedd yn brwydro dros annibyniaeth Gwlad y

Sgript Sion Acciaioli Byd Bach Mawrth 25ain

Basg, yn diarfogi rhan o'i arfdy. Ar yr unfed ar hugain o Chwefror cyhoeddodd y CIV (Dirprwyaeth Ryngwladol Gwyriad) fod ETA wedi cael gwared ar nifer sicr o arfau, ffrwydron rhyfel a ffrwydryddion. Trwy gydol ei brwydr dros annibyniaeth Basgeg, mae ETA wedi lladd mwy nag 800 o bobol mewn mwy nag tri mil (3,000) o ymosodiadau terfysgol ar dir Sbaen. Mae nifer wedi croesawi'r newyddion da yma fel cam i'r cyfeiriad cywir ond mae rhai, fel y Llywodraeth Basgeg, wedi galw'r weithred yma yn annigonol. Mae ETA wedi bod yn atal tanio yn swyddogol ers 2011 ond nid hwn yw'r tro cyntaf i ETA cyhoeddi atal tanio ac nid yw'r rhan helaeth o Sbaenwyr yn ymddiried yn y grŵp radicalaidd yma bellach.